



Canllaw i ganlyniadau

CYDRANNAU'R HER SGILIAU

Cyfres Ionawr 2024

Mae'r ddogfen hon yn cynnig trosolwg o ganlyniadau ar gyfer **Cydrannau'r Her Sgiliau**. Mae'n rhoi manylion ynghylch beth i'w ddisgwyl ar ddiwrnodau canlyniadau, y ddogfennaeth y byddwch yn ei derbyn, gwybodaeth am ffiniau graddau, a lle y gellir dod o hyd i gyngor ac arweiniad ychwanegol.

Cynnwys

1.	Diwrnod y Canlyniadau	3
	i) Casglu Canlyniadau Arholiadau	3
	ii) Beth i'w Ddisgwyl	3
	iii) Sut mae'r Canlyniadau yn cael eu dangos ar y Slip Canlyniadau	3
	iv) Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau	4
2.	Deall Eich Canlyniadau	4
	i) Esbonio Graddau	4
	ii) Esbonio Marciau	4
	iii) Sut mae marciau'n cael eu trawsnewid yn raddau	5
3.	Ffiniau Graddau	5
4.	Beth i'w wneud os yw ymgeisydd am wneud ymholiad am ganlyniad	5
5.	Pryd bydd tystysgrifau ar gael?	6

1. Diwrnod y Canlyniadau

i) Casglu Canlyniadau Arholiadau

Rhaid i ymgeiswyr dderbyn eu canlyniadau arholiadau o safle eu hysgol neu goleg (canolfan), fel arfer ar y diwrnod canlyniadau swyddogol.

Diwrnod cyhoeddi canlyniadau cyfres Ionawr 2024 yw **dydd Iau 7 Mawrth 2024**, o 8.00am ymlaen.

Nid yw CBAC yn gallu darparu na thrafod canlyniadau dros y ffôn na drwy gyfathrebu ar e-bost ag ymgeiswyr neu rieni, hyd yn oed os yw'r ysgol neu'r coleg wedi cau. Dylai ymgeiswyr, felly, gadarnhau â'u hysgol neu goleg pryd a ble y bydd canlyniadau ar gael i'w casglu a sut a gyda phwy y gallent drafod unrhyw faterion neu bryderon.

Ni ddylid datgelu canlyniadau i unrhyw un arall gan gynnwys awdurdodau lleol a'r cyfryngau tan ar ôl 9.30am ar y dydd Iau.

ii) Beth i'w ddisgwyl

Ar Ddiwrnod y Canlyniadau, fel arfer bydd ymgeiswyr yn derbyn darn o bapur gyda'u canlyniadau arno (y 'slip canlyniadau').

Canlyniadau rhagarweiniol yw'r rhain ar hyn o bryd; gall fod newidiadau yn hwyrach ymlaen, er enghraifft yn dilyn Adolygiad o Gymedroli.

iii) Sut mae'r canlyniadau yn cael eu dangos ar slip canlyniadau?

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer pob her a safodd ymgeisydd yn ystod cyfres Ionawr.

Dyfernir y graddau canlynol i bob her:

	Cenedlaethol/Sylfaen	Uwch
Project	L1 Llwyddiant (P1), L2 Llwyddiant (P2), L2 Teilyngdod (M2), L2 Rhagoriaeth (D2)	L3 Llwyddiant (P), L3 Teilyngdod (M) neu L3 Rhagoriaeth (D)
Menter a Chyflogadwyedd	L1 Llwyddiant (P1), L2 Llwyddiant (P2), L2 Teilyngdod (M2), L2 Rhagoriaeth (D2)	L3 Llwyddiant (P), L3 Teilyngdod (M) neu L3 Rhagoriaeth (D)
Byd-eang	L1 Llwyddiant (P1), L2 Llwyddiant (P2), L2 Teilyngdod (M2), L2 Rhagoriaeth (D2)	L3 Llwyddiant (P), L3 Teilyngdod (M) neu L3 Rhagoriaeth (D)
Cymuned	L1 Llwyddiant (P1), L2 Llwyddiant (P2), L2 Teilyngdod (M2), L2 Rhagoriaeth (D2)	L3 Llwyddiant (P), L3 Teilyngdod (M) neu L3 Rhagoriaeth (D)

iv) Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau

Yn ogystal â graddau, gall slipiau canlyniadau gynnwys symbolau eraill:

Mae X yn dangos nad yw canlyniad yn cael ei gyhoeddi oherwydd absenoldeb yr ymgeisydd ar gyfer pob cydran/uned. Mae'n bosibl hefyd y penderfynwyd peidio â chyhoeddi canlyniad. Ni fydd unrhyw bwnc ag (X) yn ymddangos ar y dystysgrif.

Mae Q yn dangos nad yw canlyniad yn cael ei gyhoeddi gan na ddarparwyd gradd.

Rhoddir y dangosydd hwn nesaf i'r radd gyffredinol os yw'r ymgeisydd wedi cwblhau gwaith ar gyfer rhai, ond nid pob un, o gydrannau neu unedau'r pwnc.

2. Deall eich canlyniadau

i) Esbonio graddau

Adroddir graddau'r Project Unigol a'r Heriau fel a ganlyn:

Uwch	L3 Llwyddiant, L3 Teilyngdod neu L3 Anrhydedd
Cenedlaethol/Sylfaen	L1 Llwyddiant, L2 Llwyddiant, L2 Teilyngdod, L2 Rhagoriaeth

ii) Esbonio Marciau

- **Marciau crai**

Mae cyfanswm marciau crai yn cael ei ddyrannu i'r Project Unigol a phob her.

- **Graddfa Marciau Unffurf (GMU)**

Mae marciau crai yn cael eu trawsnewid yn farc unffurf (GMU) sy'n cael ei ddefnyddio fel dyfais ar gyfer adrodd, cofnodi ac agregu canlyniadau asesu heriau/cydrannau ymgeiswyr.

Adroddir marciau unffurf fel marciau cyfan ac felly, os bydd angen gwneud hynny, byddan nhw'n cael eu "dalgrynnu" (e.e. adroddir marc unffurf o 19.6 fel 20). Er bod hyn yn rhywbeth prin, gall olygu bod marc crai ar frig yr ystod marciau mewn gradd yn trawsnewid yn farc unffurf wedi'i dalgrynnu sy'n cyfateb i'r radd nesaf i fyny. Noder, er na chodir gradd yr uned yn rhan o'r broses dalgrynnu, y bydd y marc unffurf wedi'i dalgrynnu'n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r radd gyffredinol

Y ffiniau graddau GMU ar gyfer y Project Unigol a'r heriau yw:

Uwch

	Uchaf. GMU	D	M	P
Project Unigol	150	120	90	60
Menter a Chyflogadwyedd	75	60	45	30
Byd-eang	75	60	45	30
Cymuned	75	60	45	30

Cenedlaethol/Sylfaen

	Uchaf. GMU	D2	M2	P2	P1
Project Unigol	150	120	90	60	30
Menter a Chyflogadwyedd	75	60	45	30	15
Byd-eang	75	60	45	30	15
Cymuned	75	60	45	30	15

iii) Sut mae marciau'n cael eu trawsnewid yn raddau?

- Cyfrifir gradd gyffredinol y cymhwyster gan adio'r marciau unffurf a enillwyd yn y heriau/cydrannau unigol at ei gilydd. Mae hyn yn rhoi cyfanswm marciau unffurf i'r ymgeiswyr sy'n trawsnewid yn radd gyffredinol yn seiliedig ar ffin y radd.

3. Ffiniau Graddau

Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Mae ffiniau graddau yn sicrhau bod ymgeiswyr yn derbyn yr un radd ar gyfer yr un lefel o berfformiad, pryd bynnag caiff yr her/cydran ei sefyll.

Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r her/cydran.

4. Beth i'w wneud os yw ymgeisydd am wneud ymholiad am ganlyniad

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn trafod unrhyw bryderon â'u hysgol neu goleg, Swyddog Arholiadau neu athro fel arfer, a phenderfynu ar yr opsiynau gorau sydd ar gael.

Os teimlir bod gwall wedi digwydd, gallai'r ganolfan wneud cais am un neu fwy o'r gwasanaethau ar ôl y canlyniadau a gynigir gan CBAC. Ni all ymgeiswyr mewnlol na rhieni wneud cais. Byddem yn annog ymgeiswyr preifat i ofyn am gyngor ac i wneud cais drwy eu canolfan gofrestru ond gallant hefyd wneud cais yn uniongyrchol drwy e-bostio ein Gwasanaeth Ar ôl y Canlyniadau gac@cbac.co.uk yn nodi enw'r ymgeisydd, rhif yr ymgeisydd, rhif ac enw'r ganolfan mewn unrhyw ohebiaeth.

Ymhlith y gwasanaethau hyn mae:

- Adolygiad o'r cymedroli ar ôl y canlyniadau – noder nad yw hwn ar gael ar gyfer ymgeiswyr unigol.

Nid oes angen cydsyniad ymgeisydd ar gyfer adolygiad o gymedroli gan na fydd y radd wreiddiol yn cael ei gostwng. Fodd bynnag, dylai ymgeiswyr a chanolfannau fod yn ymwybodol y byddai marc wedi'i ostwng yn cael ei drosglwyddo i ardystiad yn y dyfodol.

Bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi yn uniongyrchol gan CBAC i'r ysgol neu goleg, a byddan nhw wedyn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r ymgeiswyr. Os cyflwynwyd cais gan ymgeisydd preifat yn uniongyrchol i CBAC, yna'r ymgeisydd ei hun fydd yn derbyn y canlyniad. **Unwaith y bydd canlyniad wedi'i gyhoeddi, ni ellir adfer y marc gwreiddiol dan unrhyw amgylchiadau, hyd yn oed os yw'r marc newydd yn is na'r marc gwreiddiol.**

5. Pryd bydd tystysgrifau ar gael?

Ni chyhoeddir unrhyw dystysgrifau ar gyfer y Project Unigol na'r heriau a safwyd ym mis Ionawr 2024.